Ffordd Cymru
The Wales Way

# Ffordd yr Arfordir

Taith epig drwy Gymru...

fforddcymru.cymru



ymweldageryri.info / visitpembrokeshire.com / darganfodceredigion.cymru

## Mae Ffordd Cymru yn deulu o dri llwybr cenedlaethol a lansiwyd yn ddiweddar sy'n eich arwain drwy rai o olygfeydd mwyaf trawiadol ein gwlad.

Mae Ffordd yr Arfordir yn rhedeg ar hyd Bae Ceredigion yn ei gyfanrwydd. Mae'n daith 180 o filltiroedd (290km) sy'n ymlwybro rhwng moroedd glas ar un ochr a mynyddoedd mawr ar yr ochr arall.  O Aberdaron i Dŷ Ddewi, mae'r arfordir yn frith o drefi harbwr a phentrefi pysgota, pyrth dirgel, traethau eang a mynyddoedd mawreddog.

Yn anad dim, bydd Ffordd yr Arfordir yn gyfle i chi ymdrwytho yn niwylliant go iawn Cymru; atyniadau sy'n enwog ar draws y byd, safleoedd treftadaeth y byd, bwyd ac un o'r ieithoedd byw hynaf ar y blaned!

### Crwydrwch fel y mynnwch

O deithiau wythnos epig i deithiau am ddau neu dri diwrnod, mae Pen Llŷn, Eryri, Ceredigion a Sir Benfro yn cynnig toreth o gyfleoedd i grwydro a phrofi Cymru ar ei gorau. Dyma i chi rai awgrymiadau o beth i'w wneud a lle i fynd.

**Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn:**
www.ymweldageryri.info
www.darganfodceredigion.cymru
www.visitpembrokeshire.com

Cyhoeddwyd gan: Y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer, Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Hawlfraint © 2019.
tourism@gwynedd.llyw.cymru Ysgrifennwyd y testun golygyddol gan Writerog Ltd, Roger Thomas Freelance Services, writerlog.co.uk

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan **viewcreative.co.uk**
Ffotograffau: Hawlfraint y Goron © Croeso Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Penfro.

Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yn y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwyr dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gamgymeriad, anghywirdeb neu unrhyw beth sydd wedi'i adael allan, neu am unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r wybodaeth neu sy'n codi yn sgil hynny. Holwch ynghylch y prisiau a'r cyfleusterau cyn i chi fynd ati i archebu. Pan fyddwch wedi gorffen â'r llyfryn hwn, rhowch i ffrind neu i'w ailgylchu os gwelwch chi'n dda.

### Allwedd:


**Eryri Mynyddoedd a Môr**
1. Tripiau ymweld â Ynys Enlli
2. Aberdaron
3. Caernarfon
4. Cricieth
5. Yr Wyddfa
6. Blaenau Ffestiniog
7. Portmeirion
8. Harlech
9. Cader Idris
10. Rheilffordd Talyllyn

**Ceredigion**
1. Ynyslas
2. Pumlumon
3. Aberystwyth
4. Rheilffordd Cwm Rheidol
5. Dolffiniaid Bae Ceredigion
6. Pontarfynach
7. Ystrad Fflur
8. Aberaeron
9. Y Cei Newydd
10. Aberteifi

**Sir Benfro**
1. Goleudy Pen-caer
2. Eglwys Nanhyfer
3. Abergwaun
4. Abereiddi
5. Castell Henllys Pentref Oes Haearn
6. Cerrig gleision, Mynydd Preseli
7. Eglwys Gadeiriol Tyddewi
8. Ynys Dewi


Lerpwl
A55
A55
A470
Amwythig
A470
A44
A40
A40
A48
A477
A470
M4
M4
Caerdydd
Parciau Cenedlaethol

Abermaw



Bont Abermaw ©Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru



# Eryri Mynyddoedd a Môr

Mae oddeutu 80 milltir o Ffordd yr Arfordir yn rhedeg trwy ardal Eryri Mynyddoedd a Môr, yn ymestyn o Aberdaron (gwir 'bendraw Llŷn' a'i wreiddiau Celtaidd dwfn) i gyrchfan gosmopolitan a chanolfan hwylio Aberdyfi.  Mae 'Gwlad o gyferbyniadau' yn un o'r ystrydebau sy'n cael eu defnyddio drosodd a throsodd mewn llyfrau tywys heb feddwl ddwywaith. Ond fan hyn, mae'n wir. Un funud, rydych i fyny, fyny, fry yn y mynyddoedd. Ac mewn chwinciad, rydych ar draeth godidog. Ac i bwysleisio'r hynodrwydd hwn, mae'r iaith Gymraeg i'w chlywed ym mhob man. Hon yw iaith fyw hynaf Ewrop, sy'n greiddiol i gymeriad a diwylliant y rhan hon o Gymru.


Cricieth



Aberdaron



Mynyddoedd y Glyderau, Eryri


Harlech


Pen Llŷn


Bounce Below, Blaenau Ffestiniog


Portmeirion


Rheilffordd Eryri

# Y Goreuon

Dyma rai o'r goreuon, o'r gogledd i'r de. Am fwy o wybodaeth am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i www.ymweldageryri.info

## Dechrau neu Ddiwedd y Daith?

Mae **Aberdaron** ar ben mwyaf gorllewinol Pen Llŷn, 'pendraw'r byd', yng ngogledd Cymru. Dyma le sy'n llawn awyrgylch ac sy'n eithaf chwedlonol. Dewch i wybod am hanes a diwylliant arbennig y penrhyn yng nghanolfan ymwelwyr **Porth y Swnt**. Os yw'r tywydd yn braf, beth am fynd ar gwch i **Ynys Enlli**, ynys 'Yr 20,000 o Seintiau' chwedlonol. Rhaid sôn hefyd am y llwybrau cerdded dirifedi ar Lwybr Arfordir Cymru.

## Safleoedd Treftadaeth y Byd

Mae hanes o'n cwmpas ym mhob man. Mae cestyll eiconig **Caernarfon** a **Harlech**, yn Safleoedd Treftadaeth y Byd - ac yn teyrnasu'r wlad. Ond mae hanes cadarnleoedd Tywysogion Gwynedd yr un mor ddifyr. Saif **Castell Cricieth** mewn lle godidog yn edrych dros **Fae Ceredigion** ac nid oes unlle â chymaint o awyrgylch â **Chastell y Bere**, ynghudd yn y bryniau islaw Cader Idris.

## Pa draeth?

Mae mwy na 35 o draethau yn y rhanbarth. Dyma restr fer os ydych am drochiad!

**Aberdyfi** – mewn llecyn trawiadol ger aber Afon Dyfi, mae'r traeth tywodlyd hwn yn lle ardderchog i hwylfyrddio a gwylio bywyd gwyllt.

**Harlech** – traeth tywodlyd dilyffethair, gyda thwyni y tu ôl iddo, dan oruchwyliaeth y castell.

Un o dafarndai traeth gorau'r byd. Mae **Tafarn y Tŷ Coch** wedi dod yn drydydd mewn pleidlais fyd-eang, ac wedi curo tafarndai yn Awstralia, Fflorida a De Affrica. Saif y dafarn fwy neu lai ar draeth pentref arfordirol Porthdinllaen, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## Prif leoliad antur y DU

**Eryri Mynyddoedd a Môr** yw prif leoliad awyr agored ac antur Prydain. Ble arall fedrwch chi wibio lawr gwibwifr ar gyflymder o dros 100mya, y linell gyflymaf yn y byd, yna neidio islaw ar drampolîn tanddaearol enfawr, un arall o bethau cyntaf y byd ym **Mlaenau Ffestiniog**.


## Portmeirion

Mae'n amhosib peidio â syrthio mewn cariad â Phortmeirion. Y pensaer Syr Clough Williams-Ellis a greodd y pentref ffantasïol hwn, sy'n gyfuniad syfrdanol o ddylanwadau o'r dwyrain pell a'r Eidal. Mae'r gerddi a'r tiroedd toreithiog bron mor hudolus a'r pentref ei hun.



## Rheilffyrdd

Prif gyrchfan rheilffyrdd bach y byd. Mae **Rheilffordd yr Wyddfa** yn ei egluro'i hun, sef mynd â chi i gopa mynydd uchaf Cymru a Lloegr. I deithio rheilffordd dreftadaeth hiraf Prydain, camwch ar **Reilffordd Eryri** sy'n daith 25 milltir o Gaernarfon i Borthmadog. Yna, i fynd ymhellach fyth, camwch ar ei chymdoges, Rheilffordd glasurol Ffestiniog, yr holl ffordd i Flaenau Ffestiniog. Neu teithiwch ar **Reilffordd Talyllyn** - y rheilffordd gadwraeth gyntaf y byd, drwy gefn gwlad De Eryri.



## Mynd Igam Ogam

**Caernarfon** - tref a ddiffinnir gan ei chastell Treftadaeth y Byd, rhaid i chi ymweld â hi.

Mae **Parc Gelli Gyffwrdd ger Caernarfon** yn atyniad hynod wyrdd, ac mae wedi ennill nifer o wobrau am ei gymwysterau ecolegol.

**Yr Wyddfa a'i chriw** - mynydd uchaf Cymru. Mae'n ddarn o dir go syfrdanol, culffordd greigiog a ffurfiwyd gan losgfynyddoedd a rhewlifau.



Aberystwyth





# Ffordd yr Arfordir yng Ngheredigion

Mae oddeutu 70 milltir o Ffordd yr Arfordir yng Ngheredigion yn ymestyn o aber Afon Dyfi yn y gogledd i dref farchnad hanesyddol Aberteifi yn y de. Mae'n lle o dirweddau a morluniau chwedlonol a harbyrau lliwgar a hanesyddol.  Dyma arfordir sy’n Ardal Gadwraeth Arbennig am ei fywyd gwyllt cyfoethog, sydd hefyd yn darparu gwledd o fwyd môr. Dilynwch  y dyffrynnoedd coediog am olygfeydd braf, blas o fywyd cefn gwlad Ceredigion, ac ehangder mynydd-dir Pumlumon ac Elenydd.

# Y Goreuon

Mae'r rhan hon o'r daith yn frith o uchafbwyntiau. Dyma rai ohonynt, o'r gogledd i'r de. Am fwy o wybodaeth am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i www.darganfodceredigion.cymru

## Aberystwyth

Mae **Amgueddfa Ceredigion**, sydd â'i chartref mewn theatr Edwardaidd odidog, yn byrlymu gyda digwyddiadau cerddorol yn ogystal a rhoi darlun cyflawn o fywyd yn y rhan hon o Gymru, ac yn **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** cewch flas o ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru gyfan. Saif adfeilion castell Aberystwyth ar benrhyn braf gyda golygeydd o'r harbwr a'r marina. Dringwch i gaer Pendinas neu ewch i ben Craig Glais gyda Rheilffordd y Clogwyn.

## Bywyd Gwyllt

I'r rhai sy'n ymddiddori mewn bywyd gwyllt, mae rhan Ceredigion o Ffordd yr Arfordir yn ysbrydoliaeth, gyda mwy nag un ffordd o weld anifeiliad y môr ac adar y glannau ar hyd y daith.

Ewch draw i **Brosiect Gweilch Dyfi** i weld sut mae cadwraeth ofalgar wedi sicrhau bod yr adar hudolus hyn yn dychwelyd bob blwyddyn o gyfandir Affrica i'w nyth yn y llecyn hwn ar lan yr afon Dyfi. Gerllaw, mae gwlyptir a choetir **Ynys-hir** a gwarchodfa gyntaf yr **RSPB** yng Nghymru.

Y cyflwyniad gorau i Warchodfa **Natur Genedlaethol anferthol Dyfi**, sydd â thwyni tywod a morfeydd heli o bwysigrwydd rhyngwladol, yw Canolfan ymwelwyr **Ynyslas**. Gallwch wedyn grwydro'r traeth i ddarganfod olion coedwig danfor Cantre'r Gwaelod a gwrando am glychau Aberdyfi ar draws y dŵr.

Ewch ar daith mewn cwch o'r **Cei Newydd** i weld dolffiniaid trwynbwl Bae Ceredigion neu os gwell gennych dir sych, gallwch wylio'r llamhidyddion, y dolffiniaid a'r morloi llwyd o lwybr y clogwyn yn **Aberporth**. Ewch am dro ar hyd glan afon Teifi i Gilgerran ger Aberteifi i weld glas y dorlan a'r dyfrgi yn eu cynefin ar forfa heli **Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru**. Cewch weld ych yr afon yna hefyd!

## Teithio ar y cledrau

Gan ddilyn yr afon sy'n troelli islaw, mae **rheilffordd stêm hanesyddol Cwm Rheidol** yn dringo llethrau'r dyffryn am Bontarfynach. Yng ngheunant y Mynach mae rhaeadrau gwyllt yn rhuthro dros y creigiau coediog ac o dan dair pont, un uwchben y llall. Adeiladwyd un o'r pontydd hyn gan y diafol ei hun, yn ôl pob sôn.

## Perl Bae Ceredigion

O ystyried safon y gystadleuaeth, mae'n rhaid bod **Mwnt** yn lle eithriadol i haeddu'r disgrifiad uchod. Nid tref neu bentref mohono ond traeth braf rhwng pentiroedd gwyrddion ac eglwys fach wyngalchog. Llecyn perffaith.

## Aberaeron

Tref harbwr Sioraidd gyda tai amryliw golygus. Mwynhewch beint o gorgimychiaid neu granc ffres o Fae Ceredigion yn un o fwytai bistro'r dref. Holwch hefyd am hufen iâ mêl enwog Aberaeron.

Mae **Llanerchaeron**, sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn enghraifft brin o ystâd fonheddig o'r 18fed ganrif. Gallwch deithio yno'n hamddenol o Aberaeron gan ddilyn llwybr beicio a cherdded braf ar hyd yr afon Aeron.

## Cerdded yr arfordir

Allwch chi fyth ymweld â'n glannau heb gerdded ar hyd **Llwybr Arfordir Cymru**, ein llwybr byd-enwog sy'n ymestyn am 870 o filltiroedd. Cewch flas ar fwynder yr ardal ar gymal o'r llwybr rhwng dwy dref harbwr hyfryd Aberaeron a Cheinewydd, wrth ymlwybro dros glogwyni a heibio rhaeadrau mewn dyffrynnoedd coediog, cewch olygfeydd ysblennydd o **Fae Ceredigion**.


## Aberteifi

Tref farchnad fywiog gyda hanes diddorol i'w ddarganfod ochr yn ochr a diwylliant cyfoes byrlymus. Bydd tro rownd y dref o'r castell cadarn, lle ganwyd yr Eisteddfod i theatr fodern Mwldan yn datgelu adeiladau Sioraidd braf, warysau, Neuadd Farchnad a chapel Fictoriannaidd hardd.

## Chwaraeon dŵr i bawb

Mae Canolfan Chwaraeon Dŵr Bae Ceredigion yn y Cei Newydd yn cynnig gweithgareddau lu - o hwylio i hwylfyrddio, padlfyrddio a chychod pŵer. Ond nid oes angen i chi fod yn hen law ar y campau hyn. Mae'r sesiynau blasu sydd ar gael yno neu yn Aberystwyth a'r Borth yn ddelfrydol os ydych chi'n newydd i'r math hwn o hwyl dŵr.


Borth


Pontarfynach


Aberaeron


Y Cei Newydd


Mwnt



## Mynd Igam Ogam


**Bwlch Nant yr Arian** – crwydrwch filltiroedd o draciau beicio mynydd neu gwelwch y barcut coch a'i gynffon fforchiog, wrth iddo ddod i chwilio am fwyd pob prynhawn ym **Mwlch Nant yr Arian**.

Mwynhewch dangnefedd **Abaty Ystrad Fflur**, lle gorwedd tywysogion Cymru o'r oesau gynt.  Mae dolau breision ar lan yr afon Teifi yng nghesail anghysbell Mynyddoedd Cambria, ger Tregaron.


Aberteifi

Ffordd Cymru
The Wales Way





# Ffordd yr Arfordir yn Sir Benfro


Yma byddwn yn dilyn 60 milltir o Ffordd yr Arfordir - sef y rhan sy'n ymestyn rhwng Tŷ Ddewi a Thraeth Poppit ger tref marchnad hanesyddol Aberteifi. Mae'n gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Sir Benfro, unig Barc Cenedlaethol Arfordirol y DU. Bydd pob cam o'ch taith yn eich tywys drwy dirwedd gyfoethog, amrywiol a bythol - drwy wlad yr hud a lledrith chwedlonol - sydd wedi ysbrydoli cynifer o bobl, o artistiaid i seintiau Celtaidd, o bererinion yr Oesoedd Canol i deithwyr heddiw.


Trefdraeth


Ynys Dewi

Ynys Dewi © Hawlfraint y Goron Croeso Cymru



Tyddewi


Y Sinc


Porth Mawr


Porthgain


Llandudoch


Castell Henllys



# Y Goreuon

Dyma rai ohonynt, o'r gorllewin i'r dwyrain. Am fwy o wybodaeth am bethau i'w gwneud a lle i aros ewch i www.visitpembrokeshire.com

## RSPB Ynys Dewi

Am anturiaethau gwyllt, rhaid i chi ymweld ag **RSPB Ynys Dewi**. Ewch ar gwch o Dŷ Ddewi i weld y bywyd gwyllt o'r radd flaenaf sy'n ffynnu yn y warchodfa natur, sy'n lleoliad nythu i filoedd o adar môr, ac yn gartref i lamhidyddion a morloi llwyd.

## Dinas Leiaf y DU

Mae swyn **Tŷ Ddewi** wedi parhau dros y canrifoedd – ers yr Oesoedd Canol, pan ddatganwyd bod dwy bererindod i'r gadeirlan yno (ar safle a sefydlwyd gan nawddsant Cymru) gyfwerth ag un i Rufain. Dyma ddinas leiaf Prydain gyda phoblogaeth o oddeutu 2,000 ac, yn ein tyb ni, y mwyaf o orielau celf a stiwdios fesul y pen.

## Beth am fwyta pryfed?

**Dr Beynon's Bug Farm**, canolfan ymwelwyr ac ymchwil unigryw sy'n canolbwyntio ar drychfilod ac amaethyddiaeth gynaliadwy. Rhaid i chi fynd i'w Cegin lle mae trychfilod wastad ar y fwydlen.

## Arfodira yn y Sinc Abereddi

Ewch ar antur ar ein harfordir wrth i chi ddringo dros glogfeini a chlogwyni creigiog cyn mynd amdani a llamu i mewn i'r dyfroedd islaw yn yr hen chwarel lechi hon sydd wedi'i throi yn faes chwarae antur dwr.

## Traethau wedi'u gwobrwyo

Yn ddiau, mae traethau Sir Benfro yn plesio pawb, ac mae'n hawdd gweld hynny o ystyried bod mwy na hanner cant ohonynt. Dan warchodaeth eu **statws Parc Cenedlaethol**, mae gan draethau Sir Benfro rai o'r dyfroedd glanaf a nifer o wobrwyon i dystiolaethu hynny.

## Pentrefi a threfi harbwr traddodiadol

**Porthgain**, lle mae natur greigiog a gwyllt arfordir gogledd Sir Benfro'n newid yn harbwr cysgodol gyda naws unigryw a difyr.

**Mae Harbwr Isaf Abergwaun yn un arall o** leoliadau clasurol gogledd Sir Benfro, lle mae cychod pysgota'n cyd-fyw â'r padlfyrddwyr yn yr harbwr hyfryd hwn sydd wedi serennu mewn clasuron o ffilmiau Hollywood megis Moby Dick ac Under Milkwood.

Ar hyd yr arfordir fewn ddown at **Drefdraeth**, gyda dewis blasus o fwytai, bistros a chaffis. Mae'n le delfrydol i gerdded sy'n denu criwiau ffasiynol.

Mae **Cwm Gwaun** wedi bodoli ers yr Oes Ia ddiwethaf, ac mae'n rhedeg o'r arfordir i fyny tuag at fryniau'r Preseli, sef ardal fewndirol y Parc Cenedlaethol, gydag ucheldiroedd glaswelltog a nifer o safleoedd cyn-hanesyddol diddorol ac o fan hyn y daeth Cerrig Glas Côr y Cewri.

Daw gogledd Sir Benfro i ben mewn modd godidog ar hyd aber Afon Teifi a **Thraeth Poppit**, sy'n draeth mawr a gwyntog yn agos at leoliad arall pwysig yn hanes y seintiau, sef pentref **Llandudoch** gyda'i abaty canoloesol.

**Traeth Poppit** yw man cychwyn (neu orffen, gan ddibynnu i ba gyfeiriad yr ydych yn teithio) Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Dyma draeth tywodlyd maith gyda thwyni tywod yn gefnlen iddo yn aber yr Afon Teifi.

## Mynd Igam Ogam

**Pentre Ifan** - Siambr gladdu neolithig yn dyddio i oddeutu 3500CC yn y bryniau i'r dwyrain o Drefdraeth. Dyma'r fwyaf a'r gorau o'i bath yng Nghymru.


**Castell Henllys** – Bryngaer o'r Oes Haearn sydd wedi'i hail-greu fydd yn mynd â chi yn ôl bron i 2000 o flynyddoedd.

**Eglwys Nanhyfer** – Mae Arysgrif Ogam Celtaidd o'r chweched ganrif i'w weld wedi'i ysgythru i sil ffenest yn yr eglwys. Rhaid i chi hefyd chwilio am yr Ywen Waedlyd wrth y brif giât, ni ŵyr neb pam fod y goeden wedi bod yn 'gwaedu' sudd coch ers cyn cof.



**Ffordd Cymru**

Mae Ffordd Cymru yn deulu o dri llwybr cenedlaethol sy'n eich arwain at wir galon Cymru. Mae Ffordd yr Arfordir yn rhedeg ar hyd arfordir y gorllewin o amgylch Bae Ceredigion, taith ffordd o 180 milltir (290km) rhwng y mynyddoedd a'r môr. Mae Ffordd Cambria yn croesi asgwrn cefn Cymru am 185 o filltiroedd (300km) rhwng Llandudno a Chaerdydd, trwy Barciau Cenedlaethol ac eangderau gwyrdd. Mae Ffordd y Gogledd yn arwain 75 milltir (120km) heibio cestyll nerthol i Ynys Môn.




www.ffforddcymru.cymru

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government